OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 2480 (Cy.243)

# ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

## Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2002

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *28 Medi 2002* |
| *Yn dod i rym* | - - | *30 Medi 2002* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, sy'n gweithredu ar y cyd wrth arfer y pwerau a roddwyd iddynt o dan adrannau 1 ac 8(1) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Teitl, cymhwyso a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2002; mae'n gymwys i Gymru a daw i rym ar 30 Medi 2002.

### Diwygio Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002

**2.**—(1) Diwygir Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002(**2**) yn unol â darpariaethau canlynol yr erthygl hon.

(2) Yn erthygl 2, dilëir y diffiniad o “hela” (“*hunting*”).

(3) Yn lle erthygl 3(3)(dd), rhoddir y canlynol—

“(dd) hwrdd neu afr o'r naill ryw neu'r llall, sef anifail sy'n cael ei ddychwelyd i'r safle hwnnw o le yr oedd wedi'i symud iddo at ddibenion bridio ar yr amod ei fod yn cael ei ynysu oddi wrth bob anifail arall sydd yno am 20 diwrnod ar ôl dyddiad ei ddychweliad oni bai, yn achos gafr, ei bod yn cael ei hanfon yn ôl i'r lle hwnnw ar gyfer ymgais pellach i fridio, a'r afr honno wedi cael ei hynysu felly ers dyddiad ei dychwelyd;”.

(**1**) 1981 p.22. *Gweler* adran 86(1) i gael y diffiniadau o “the Ministers” a “the Minister”. Trosglwyddwyd swyddogaethau “the Ministers”, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672); trosglwyddwyd swyddogaethau “the Ministers”, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol yr Alban mewn perthynas â Chymru, i'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Amaethyddiaeth a Bwyd) 1999 (O.S. 1999/3141). Trosglwyddwyd ymhellach swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd wedi hynny i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (Diddymu) 2002 (O.S. 2002/794).

(**2**) O.S. 2002/ 2304 (Cy. 229)

(4) Yn erthygl 3 (10), yn lle'r geiriau "arolygydd milfeddygol" rhoddir "arolygydd".

(5) Yn lle erthygl 3(11), rhoddir y canlynol—

"(11) Caiff hysbysiad a ddyroddwyd o dan baragraff (10) gael ei amrywio neu ei ddirymu ar unrhyw bryd drwy hysbysiad ysgrifenedig pellach a ddyroddir gan—

(a) arolygydd milfeddygol, os cafodd yr hysbysiad sydd i'w amrywio neu ei ddirymu ei ddyroddi gan arolygydd milfeddygol; neu

(b) arolygydd milfeddygol neu unrhyw arolygydd arall, os cafodd yr hysbysiad sydd i'w amrywio neu i'w ddirymu ei ddyroddi gan arolygydd ac eithrio arolygydd milfeddygol.

(11A) Rhaid cyflwyno hysbysiad a ddyroddwyd o dan baragraff (11) i'r personau y cyflwynwyd yr hysbysiad y mae'n ei amrywio neu'n ei ddirymu iddynt.".

(6) Yn lle erthygl 4(b), rhoddir y canlynol—

"(b) dderbyn o ladd-dy

(i) unrhyw fochyn, neu

(ii) unrhyw anifail arall ac eithrio o dan awdurdod trwydded a ddyroddwyd gan arolygydd milfeddygol.".

(7) Dilëir erthygl 5.

(8) Yn erthygl 6(3) dilëir y geiriau "neu 5(2)(b)".

(9) Yn lle'r geiriau "er mwyn gwneud dau neu ragor o safleoedd yn" yn erthygl 6(4), rhoddir "mewn perthynas â".

(10) Yn erthygl 9(1), yn lle "bydd y swyddog neu'r arolygydd yn peri" rhoddir "caiff y swyddog neu'r arolygydd beri".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar:

*J.E. Randerson*
Y Gweinidog Dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

27 Medi 2002

Llofnodwyd ar:

*Whitty*
Is-ysgrifennydd Gwladol,

Adran yr Amgylchedd,
Bwyd a Materion Gwledig
28 Medi 2002

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Rheoli Clefydau (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002 (O.S. 2002/2304 (Cy. 229)) (y “prif Orchymyn”).

Y prif ddiwygiadau yw—

(a) dileu erthygl 5 o'r prif Orchymyn sy'n darparu y bydd yn anghyfreithlon yn gyffredinol i hela rhywogaethau penodol â chwn ac eithrio o dan awdurdod caniatâd a ddyroddwyd gan arolygydd milfeddygol; a

(b) amnewid erthygl 3(3)(dd) er mwyn darparu na fydd symudiadau hyrddod i unrhyw safle yn arwain at ofyniad segura yno (fel y cyfeirir ato yn erthygl 3(1)(b) o'r prif Orchymyn) ar yr amod bod yr hwrdd yn cael ei ddychwelyd i'r safle hwnnw o le y cafodd ei symud iddo at ddibenion bridio a'i fod yn cael ei ynysu oddi wrth anifeiliaid eraill am 20 diwrnod ar ôl dyddiad ei ddychweliad.

Nid oes arfarniad rheoliadol wedi'i baratoi ar gyfer y Gorchymyn hwn.